# <u>Hysbysiad o Gwneud</u>

## GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

## A541 STRYD FAWR, CAERGWRLE

## CYNNIG I DYNNU DIM AROS AR UNRHYW ADEG.

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 13 Rhagfyr 2023 drwy arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013, i gyflwyno:

(a) Cynnig i Dynnu Cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg:-

1. Ar A541 Stryd Fawr, Cilfan Caergwrle, y tu allan i eiddo rhif 45, 47, 47a a Chartref Preswyl The Glynne.

Bydd rhan o gyfyngiad Dim Aros Ar Unrhyw Adeg yn parhau y tu allan i'r fynedfa gefn i eiddo rhif 47.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol 'Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013' yn parhau mewn grym.

Os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 19 Rhagfyr 2023, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell Yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, CH7 1AP. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Os ydych chi'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaethpwyd dani o ran y Gorchymyn, fe allwch, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y Gorchymyn, wneud cais i'r uchel Lys, i'r pwrpas hwn.

KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dydd Gwener 15 Rhagfyr 2023.

DYDDIEDIG 13 RHAGFYR 2023

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# A541 STRYD FAWR, CAERGWRLE

# (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR

# AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)

# GORCHYMYN (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 57) 2023

Katie Wilby,

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),

Neuadd y Sir,

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint,

CH7 6NF

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**A541 STRYD FAWR, CAERGWRLE**

**(GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR**

**AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**GORCHYMYN (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 57) 2023**

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Rhagfyr 2023 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint A541 STRYD FAWR, CAERGWRLE (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 57) 2023

2. Yn dod i rym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, mae atodlen map AX119, Taflen Adolygu Rhif 2 yn disodli map atodlen AX119 Taflen Adolygu Rhif 1, ac mae'r holl atodlenni map eraill ynghyd â'r amserlenni map a grybwyllwyd eisoes a chynlluniau y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn cael eu hymgorffori yng Ngorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgrynhoi) Cyngor Sir y Fflint 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn gyfeiriad at gynllun sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn hwn.

# ATODLEN
## Cynnig i Dynnu Cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg.
## Caergwrle

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|---|
| A541 Stryd Fawr | AX119 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y 13 diwrnod hwn o Rhagfyr 2023 )
yng ngŵydd:- )

VICE **Y CADEIRYDD**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**~~RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIO~~L**

**UWCH GYFREITHIWR**

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

## A541 STRYD FAWR, CAERGWRLE

## CYNNIG I DYNNU CYFYNGIADAU DIM AROS AR UNRHYW ADEG.

## Datganiad o'r Rhesymau dros Gynnig Gwneud y Gorchymyn

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig dileu rhannau o gyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl) ar yr A541 - Stryd Fawr, Cilfan Caergwrle, y tu allan i eiddo rhif 45, 47, 47a a Chartref Preswyl Glynne.


Bydd rhan o gyfyngiad Dim Aros Ar Unrhyw Adeg yn parhau y tu allan i'r fynedfa gefn i eiddo rhif 47, i gadw'r pwynt mynediad hwn yn glir.

Bydd cael gwared ar y llinellau melyn dwbl yn y lleoliad hwn o fudd i siopau a busnesau lleol yr ardal, drwy ddarparu man parcio i ymwelwyr oddi ar y brif gerbytffordd, gan gynorthwyo i'r holl draffig lifo'n rhydd.

**Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig**



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dydd Gwener 10 Tachwedd 2023.




KEY
ALLWEDDOL

Existing Double yellow lines (No Waiting At Any Time) To remain.

Arfaethedig Dim Aros yn Ar Unrhyw Amser

Double yellow lines (No Waiting At Any Time)
To be Removed.

Aros Arfaethedig i'w Dileu

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NW

CHECKED BY: RF

SCALE: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 300000 300000

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

A541 HIGH STREET AND GWALIA
CAERGWRLE
Waiting restrictions to be Removed
Aros Arfaethedig i'w Dileu


DRAWING NUMBER

| HT/23/A541 | 101 | C1 |
|---|---|---|

AREA CODE:AX119
COD ARDAL:AX119

Sheet Revision No: 2
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 2

Sheet active from: 19 December 2023
Dalen yn weithredol o: 19 Rhagfyr 2023




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386


# The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 57) Order 2023

# Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 57) 2023


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF